Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r **Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar **23 Ebrill 2012** ac fe'i cyfeiriwyd wedyn gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** ("y Pwyllgor") ar gyfer proses graffu Cyfnod 1.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Hydref 2012**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis.

Cymeradwywyd y Bil yn unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **23 Hydref 2012**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 24 Hydref. Cyflwynwyd cyfanswm o 21 o welliannau (Llywodraeth Cymru a gyflwynodd 139 ohonynt). Cyfarfu'r pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar **14 Tachwedd** a **28 Tachwedd**.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Derbyniwyd y gwelliannau a ganlyn yng Nghyfnod 2

Cytunwyd ar gyfanswm o 141 o welliannau gan y Pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2. Cytunwyd ar y cyfan ond un (gwelliant 98 yn ymwneud â phaneli dyfarnu lleol) o welliannau Llywodraeth Cymru. Cytunwyd ar dri o welliannau nad oeddent yn welliannau'r Llywodraeth. Mae crynodeb isod o'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil:

### Ymyrryd mewn ysgolion a gynhelir

- Mae gwelliannau 1 a 2 yn ychwanegu gofyniad i sicrhau y caiff copïau o hysbysiadau rhybuddio neu hysbysiadau ynghylch terfynu ymyriad, a gyhoeddir gan awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ysgolion a gynhelir, eu darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru.
- Mae gwelliannau 5, 6, 7, 12, 13, 14, 15, 16, 35, 80, 87, 93 a 94 i gyd yn welliannau technegol sy'n disodli'r cyfeiriadau at "awdurdod priodol yr esgobaeth" gyda "y corff crefyddol priodol".

### Ymgynghori gan Weinidogion Cymru

- Mae gwelliannau 17 a 18 yn ychwanegu Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) fel ymgynghorai statudol cyn llunio unrhyw Ganllawiau Gwella Ysgolion na chodau am drefniadaeth ysgolion a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru. Daw'r newidiadau hyn yn dilyn argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 a chan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

### Paneli Dyfarnu Lleol

- Mae Gwelliannau 99 a 100 yn sicrhau na chaiff athrawon a gyflogir, neu a gyflogwyd yn y gorffennol, gan awdurdod lleol, eu heithrio rhag bod yn aelodau o baneli dyfarnu lleol drwy'r gyflogaeth honno.
- Mae gwelliant 147, a gyflwynwyd gan Aled Roberts AC, yn ymgorffori yn y Bil amhleidioldeb awdurdodau lleol yn rhinwedd y paneli dyfarnu lleol.

## Cynigion trefniadaeth ysgolion: newid categori ysgolion

- Mae Gwelliannau 23 a 26 yn nodi'n glir na all ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol sydd â chymeriad crefyddol newid categori i ddod yn ysgol gymunedol.
- Mae Gwelliant 28 yn dileu adran 46 a'r gofyn i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir i wneud cynnig i newid categori'r ysgol yn ysgol wirfoddol a reolir os na all gyflawni ei chyfrifoldebau mewn cysylltiad ag atgyweiriadau yn sgîl buddsoddi cyfalaf. Fe'i bwriadwyd i adlewyrchu'r darpariaethau presennol sydd yn *Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*.

## Trefniadaeth ysgolion: pŵer i wneud gorchmynion neu i roi cyfarwyddiadau

- Mae gwelliannau 36, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 50, 52, 53, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 86 a 111 yn dileu'r geiriau "drwy Orchymyn" o adrannau penodol er mwyn egluro bod y pwerau yn yr adrannau y cyfeirir atynt yn y gwelliannau yn weithredol eu natur. Yn ôl y Gweinidog, mae dileu'r term hwn yn dileu unrhyw ddryswch posibl ynghylch natur y pwerau a gynhwysir yn y Bil.

## Trefniadaeth ysgolion: darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

- Mae Gwelliant 67 yn rhoi gofyniad ychwanegol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori yn unol â'r cod ar drefniadaeth ysgolion cyn cyhoeddi cynigion i sicrhau y ceir darpariaeth anghenion addysgol arbennig rhanbarthol.

## Categorïau o wrthwynebwyr

- Mae Gwelliant 31 yn sicrhau bod modd i gynigwyr nodi'r categori y bydd gwrthwynebwyr yn ffitio iddo. Yn benodol, mae'n cadarnhau, pan na fydd gwrthwynebwyr yn nodi natur eu diddordeb, mae'n bosibl yr ystyrir bod eu gwrthwynebiadau y tu allan i'r categorïau a restrwyd.
- Mae Gwelliant 32 yn ymestyn y rhestr o wrthwynebwyr categori dau i gynnwys ymddiriedolaethau elusennol sy'n cadw tir neu adeiladau ar ran ysgol i gydnabod eu diddordeb yn yr ysgol honno.
- Mae Gwelliant 185, a gyflwynwyd gan Angela Burns AC, yn dileu "yng Nghymru" yn adran 51 i ddarparu cysondeb er mwyn rhoi cyfle i awdurdodau lleol yn Lloegr i wrthwynebu cynigion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.
- Mae Gwelliant 186, a gyflwynwyd gan Angela Burns AC, yn ymestyn y rhestr o wrthwynebwyr categori tri i gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau rhieni plant a phobl ifanc sy'n mynychu, neu a allai yn y dyfodol, fynychu ysgol sy'n destun cynnig trefniadaeth ysgolion.

## Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig

- Mae gwelliannau 19 i 22, 27, 29, 30, 37, 49, 51, 54, 55, 68, 69, gwelliannau 71 i 79, 88, 89, gwelliannau 95 i 97, gwelliannau 102 i 110, a gwelliannau 112 i 139 yn atal sefydlu ysgolion arbennig sefydledig newydd neu drawsnewid ysgolion arbennig cymunedol yn ysgolion arbennig sefydledig i adlewyrchu'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol yng Nghymru mewn cysylltiad ag ysgolion prif ffrwd sefydledig.

## Brecwast am ddim mewn ysgolion a chwnsela mewn ysgolion

- Mae Gwelliant 90 yn ei gwneud yn amlwg ar wyneb y Bil y bydd darpariaethau deddfwriaethol ynghylch brecwast am ddim a chwnsela mewn ysgolion yn dod i rym ar 1 Ebrill 2013.

## Cyfarfodydd rhieni

- Mae Gwelliant 81 yn newid y modd y caiff y nifer o rieni sy'n ofynnol i ddeisebu cyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol yn llwyddiannus, ei gyfrif. Yn benodol, mae'r gwelliant yn newid trothwyau fel bod pob ysgol, beth bynnag fo'i maint, yn ei gwneud yn ofynnol bod a) 10 y cant o'r disgyblion sydd wedi cofrestru neu b) 30 o ddisgyblion cofrestredig, pa un bynnag yw'r lleiaf, o rieni i ddeisebu'n llwyddiannus am gyfarfod.
- Mae Gwelliannau 82, 83, 84 a 85 yn darparu, yn dilyn deiseb lwyddiannus i gynnal cyfarfod rhieni, y bydd gan y corff llywodraethu gyfnod hwy o 25 diwrnod i gynnal cyfarfod.
- Mae Gwelliannau 91 a 92 yn diwygio'r darpariaethau cychwyn cyfredol yn y Bil fel bod y ddyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol i gynnal cyfarfodydd â'r rhieni, yn dilyn cyflwyno deiseb lwyddiannus, yn cychwyn ddeufis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

## Ymrwymiadau a wnaed gan y Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, gwnaeth y Gweinidog ymrwymiadau i ystyried a thrafod materion a nodwyd drwy'r gwelliannau a ganlyn, cyn y ddadl Cyfnod 3. Gwelir isod fanylion am y gwelliannau hyn:

## Paneli Dyfarnu Lleol

- Roedd gwelliannau 157 i 171 a 175 i 176, a gyflwynwyd gan Simon Thomas AC, yn ceisio dileu paneli dyfarnu lleol fel modd o benderfynu ynghylch cynigion trefniadaeth ysgolion, a chael system sy'n darparu bod awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch cynigion yn eu lle, gan ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

## Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

- Roedd Gwelliant 205, a gyflwynwyd gan Angela Burns AC, yn gofyn am ychwanegu gofyniad i ymgynghori ag awdurdodau lleol cyn i Weinidogion Cymru addasu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg neu baratoi cynllun strategol Cymraeg mewn Addysg gwahanol.
- Roedd Gwelliannau 150, a gyflwynwyd gan Aled Roberts AC, yn ceisio sicrhau bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys cynigion ynghylch sut yr atebir y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn yr asesiad ohono. Yn yr un modd, roedd gwelliant 172, a gyflwynwyd gan Simon Thomas AC, yn ceisio sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer mynd i'r afael â'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn asesu'r galw hwnnw.

## Camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 29 Tachwedd 2012 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Gall yr Aelodau gyflwyno rhagor o welliannau i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth erbyn 6pm ar 8 Ionawr 2013, (**SwyddfaDdeddfwriaeth@cymru.gov.uk**). Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2013.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â Liz Wilkinson, Clerc yn y Swyddfa Ddeddfwriaeth, (**elizabeth.wilkinson@cymru.gov.uk**), estyniad 8025, neu Sian Hughes (**sian.hughes@cymru.gov.uk**), estyniad 8221.